



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024

Cystadleuaeth 93 – Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac iau

Hyddgen, Ann Fychan

Mor dawel yw'r llethrau heno
O Hyddgen i Darren Bwlch Gwyn,
A'r niwlen yn drwch dros y moelni
Fel amdo o'r Garn at y llyn,
'Ddaw dim i darfu ar lonyddwch
Gylfinir a'i gri uwch y dŵr,
A'r defaid yn pori'n ddihidio
Uwch cerrig cyfamod Glyndŵr.

Ni welir un milwr yno
O Hyddgen i Darren Bwlch Gwyn;
Daeth rhoncwellt canrifoedd i guddio
Pob defnyn o waed ar y bryn,
Ond lle bu ei faner unwaith
Ar gopa Pumlumon Fawr
Mae'r creigiau'n dal i dystio
I Hyddgen gael ei awr.

A dreuliaist ti orig ar Hyddgen
A cherdded hyd Darren Bwlch Gwyn
I brofi o falchder hen fynydd
Sy'n datgan 'Bu Owain fan hyn!'
A deimlaist ti gynnwrf y goncwest?
A glywaist ti utgorn y gad
Yn dal i'th alw i'r frwydr
I ymladd dros ryddid dy wlad?